# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos**
**am 7.00pm Nos Fercher 26ain o Hydref 2022**

1. Presennol Cyng I Ellis; Cyng B. Jones; Cyng D Jones-Morris; Cyng D W Jones Cyng J Pierce:

2. Ymddiheuriadau Cyng L A James Cyng J Lewis

3. Cod Ymddygiad Esbonwyd fod y drefn i ddatgan buddiant belllach yn haws wrth ein bod yn cyfarfod wyneb yn wyneb a ffurflenni ar gael gan y Clerc
   Dim datgan buddiant

4. Cofnodion Cyfarfod dwaetha 28-09-2022
   Cynnigwyd eu cywirdeb gan y Cyng I Ellis ag eilwyd gan y Cyng D Jones Morris
5. Materion yn codi o'r cofnodion
   Nodwyd nad oedd yn bosib derbyn mwy nag un peiriant drwy'r cynllun Diffibs Unllais/Llyw Cymru a byddai disgwyl iddynt fod ar gyfer grwp cymunedol ifanc os yn bosib Clerci holi C P Seintiau Bangor gan fod peiriant wedi ei osod wrth ystafelloedd newid C P Iau Penrhosgarnedd
   Darllenwyd e-bost o Scottishpower yn ymddiheuro am ei costau ychwanegol ag y byddai credyd o £20.00 ar ein infois nesaf
   Nid oedd ymatebion o'r Is-Grwpia
   Cysgodfannau ffordd Penrhos yn dal i achosi pryder **Clerc i gysylltu a Gwynedd unwaith eto**
   Cae chwarae Caerhun Tra bod amcanbrisiau wedi dod i law y teimlad oedd nad oedd y prisiau ddim am yr un petha. Disgwyl amcanbris mwy diweddar gan un Cwmni oedd wedi rhoi pris i ni yn 2020
6. Adroddiad Ariannol
   Roedd copia o'r fantolen ariannol wedi ei rhannu yn dangos £46,547.66c yn y Cyfrif Cyfredol a £45,064.37c yn y cyfrif cadw
7. Archwylio allannol
   Adroddiadau terfynnol am 2019-20 a 2020-21 wedi eu dychwelyd o'r diwedd a dim problemau wedi eu adnabod
   Adroddiad 2021-22 heb gyrraedd ond y Clerc wedi holi amdani
8. Cofrestr Risg/Polisia
   Trafodwyd rhai o'r risgiau oedd wedi eu adnabod ag angen sylw e.e. Y Cae Chwarae a'r Cysgodfannau. **Clerc i wneud ymholiadau eto**
   Adnabuwyd hefyd yr angen i geisio dod a'r materion y ganolfan newydd i drefn drwy ddwyn persawd - os yn bosib - rhwng Cyngor Gwynedd a'r Eglwys a chael prydles yn ei lle yn ogystal hefyd a dod i gytundeb ar y ffordd ymlaen i reoli'r ganolfan newydd - angen trefnu cyfarfod rhwng y Pwyllgor Rheoli presennol a'r Cyngor
   Cynllun Hyfforddiant Nodwyd ei bod yn ofynnol bellach i Gynghorau Cymuned ddarparu cynllun hyfforddiant ag angen asesu angenion hyfforddiant Clercod a Cynghorwyr **Clerc i drefnu**

9. Taliadau angen sylw Argymell fod y cyfan yn cael eu talu
   Scottishpower £ 67.74 Cyflog Hydref £ 610.44 HMRC Hydref M 7 £ 152.40
   Ffenestri Sgwar – Llnau Cysgodfannau 7 x £150.00 £1050.00
   D W Lewis Torri gwair Medi £ 685.00 J D Gardening Cae Chwarae Caerhun Medi £ 150.00
   Tal i mewn Gosod Carreg £ 50.00

10. Ceisiadau Nawdd

| | |
|---|---|
| Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen | Argymell £300.00 |
| Parchu Pentir | Argymell £300.00 |
| Llais Ggwen | Argymell £300.00 |

11. Prosiectau

Cae chwarae Caerhun Nodwyd fod yr dyfnbrisiau a gafwyd am ddau ddeunydd gwahanol sef Rubber Mulch a Gosod y 'Base Rubber' gyntaf, ac wedyn y 'Rubber Topping'. Er iddynt addo anfon pris newydd gan fod y gwreiddiol yn 2020 'doedd y pris newydd ddim wedi cyrraedd

Ysgol Y Faenol Yn absennoldeb ein cyd-lynnydd a'r prosiect nid oedd posib cael diweddariad

12. I'w trafod hefyd

Pont y Borth

Trafodwyd y trafferthion enbyd fu yn yr holl ardal yn dilyn cau Pont y Borth cyutnwyd i anfon llythyr at y Gweinidog oedd yn gyfrifol Lee Waters a chopio Gweinidog Lesley Griffiths a'r ddau Awdurdod Lleol Gwynedd ag Ynys Mon **Llythyr eisioes wedi ei anfon 24/10/22**

Parcio Penrhos

Nodwyd yn sgil yr uchod fod problemau parcio yn ardal Penrhos fwy nag erioed ag angen cadw golwg manwl ar y sefyllfa

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50